Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw

Caneuon Ffydd: Rhif 791

Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,
tydi a roddaist imi flas ar fyw:
fe gydiaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,
ni allaf tra bwyf byw ond canu'r gân;
'rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,
'rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi yw haul fy nydd, O Grist y groes,
yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes;
lle'r oedd cysgodion nos mae llif y wawr,
lle'r oeddwn gynt yn ddall 'rwy'n gweld yn awr;
mae golau imi yn dy Berson hael,
penllanw fy ngorfoledd yw dy gael;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, lesu, fy mawrhad i ti.

Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un,
mae ystyr bywyd ynot ti dy hun;
yr wyt yn llanw'r gwacter drwy dy air,
daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair;
mae melodïau'r cread er dy fwyn,
mi welaf dy ogoniant ar bob twyn;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, lesu, fy mawrhad i ti.

W. RHYS NICHOLAS, 1914 – 96

MYFYRDOD

Synnwyr isel iawn o'u gwerth sydd gan lawer o bobl heddiw, gyda chyrsiau yn cael eu cynnal yn ein colegau i godi ymwybyddiaeth o hunan-barch mewn pobl. Ond hyd nes y bydd Duw yn dweud wrthym pwy ydym ni, fyddwn ni ddim yn gwybod ein gwerth na'n pwrpas. Yn waeth fyth, bydd eraill yn gallu'n defnyddio a dylanwadu arnom i'w dibenion eu hunain. 'Yng Nghrist' yn unig y deuwn i sylweddoli ein gwerth a phwrpas bywyd, ac mae'r

emynydd yn mynegi mewn llawer modd trwy'r emyn fod 'ystyr bywyd ynot ti dy hun'.

Sonia W. Rhys Nicholas, wrth agor ei emyn, am 'y wyrth' mae Crist yn ei chyflawni. Ond beth yw'r wyrth honno? Fel y mae genedigaeth plentyn yn wyrth ynddi'i hun, felly hefyd yr ail-enedigaeth pan gawn ni ein geni o'r newydd i obaith bywiol: 'Felly, os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma' (2 Cor. 5:17).

Dyrchafwn fawl i Grist trwy gydol yr emyn hwn, yr un sy'n gwneud y wyrth o roi'r natur newydd hon inni, gan gydio ynom trwy ei Ysbryd Glân. Y fath wahaniaeth a wna i'n bywydau. Mae W. Rhys Nicholas yn mynd i afiaith wrth ddisgrifio'r gwahaniaeth mae Iesu'n ei wneud yn ei fywyd ei hun. Prin fod emyn mor bersonol ei orfoledd wedi ei lunio ers dyddiau ein hemynwyr mwyaf yng ngwres y Diwygiad Methodistaidd. Mae Iesu'n cyffroi ei holl synhwyrau. Derbynia gân i'w chanu ac i bawb ei chlywed; derbynia lygaid newydd i weld ôl llaw Duw ar bopeth – a'r 'harddwch sy'n parhau'; mae ei holl berson yn cael ei drydaneiddio wrth iddo 'deimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu'; ac mae ei enaid, y rhan arhosol ohono, yn llawn o'r 'Halelwia', sef mawl i enw Duw. Dyma fywyd yn cael ei fyw i'r eithaf gyda 'blas' anhygoel arno: bywyd yn ei holl gyflawnder.

I gyfrannu bywyd fel hyn inni y daeth Iesu i'n byd: '"Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder"' (Ioan 10:10). Mae'n cyfrannu o'i fywyd ei hun inni wrth ddod â'r 'pell yn agos' yn ei farw aberthol drosom (Eff. 2:13). Mae bywyd yn wag os na wyddom beth yw ei ddiben. Byddwn yn poeni am yr hyn mae eraill yn ei feddwl ohonom wrth inni chwilio am arwyddocâd o rywle i'n bywydau. Ond mae Iesu'n 'llanw'r gwacter' trwy ei air – yn llefaru i mewn i'n bywydau ac yn rhoi gwir arwyddocâd i fywyd pob un ohonom wrth inni ei ddefnyddio mewn gwasanaeth iddo.

GWEDDI

Diolch iti, Arglwydd, am gael canu'r gân a bery byth, ac am fywyd yn ei holl gyflawnder yng Nghrist. Cadw fy llygaid ar Iesu pan fyddaf fi'n teimlo'n ddiwerth, yn methu gwneud dim byd yn iawn, yn methu bod yn ddigon da. Does imi arwyddocâd i'm bywyd yn neb arall ond yng Nghrist. Amen.